

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020/21

1. Cyflwyniad

A ninnau'n sefydliad a restrir yn Atodlen 19 Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gan Amgueddfa Cymru ddyletswyddau statudol o dan y ddyletswydd gyffredinol ynghyd â dyletswyddau penodol i Gymru. Yn unol â'r dyletswyddau penodol i Gymru, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb.

Mae Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb. Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi camau a gymerwyd gennym i wella cyfleoedd cyfartal ym mhob agwedd ar ein gwaith, fel cyflogwr cynhwysol ac wrth weithio gyda'n cymunedau.

Mae'r adroddiad hefyd yn disgrifio'r camau a gymerwyd gennym i ddiwallu ein hamcanion fel y nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2018-21.

2. Cefndir a chyd-destun

Mae ein dull gweithio ym maes cydraddoldeb yn cydnabod ein cyfrifoldebau i'r cymunedau hynny sy'n profi tlodi ac anfantais economaidd ac rydym yn ymroi i sefydlu egwyddorion [Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: arweiniad ac adnoddau ar gyfer cyrff cyhoeddus](#) yn ein gwaith. Mae argyfwng cymdeithasol ac economaidd 2020/2021 wedi tynnu sylw clir at yr anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru. Yn [Papur Briffio: Tlodi yng Nghymru 2020](#), nododd Sefydliad Joseph Rowntree "Hyd yn oed cyn y coronafeirws, roedd bron i chwarter y bobl yng Nghymru mewn tlodi, yn byw bywydau ansicr ac ansefydlog. Mewn llawer o achosion, bydd y coronafeirws wedi eu gwrthio'n ddyfnach i dlodi, yn ogystal ag achosi i eraill fethu ag ymdopi. Ni fydd llawer ohonynt wedi profi'r sefyllfa hon o'r blaen." Mae hyn, ynghyd â Mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, wedi tynnu ein sylw at yr angen dybryd i ni newid ein dull o weithio ac ehangu ein hymgysylltiad â chymunedau Cymru.

Roedd ein hamgueddfeydd ar gau am rannau helaeth o'r cyfnod hwn, felly rhaid oedd addasu a datblygu ein dulliau gweithio er mwyn parhau i gynnig mynediad at y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant. Roedd yn rhaid i ni hefyd gymryd camau i ddiogelu lles ein hymwelwyr, ein staff a'n gwirfoddolwyr. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut yr aethom ati i wneud hyn, a sut y daeth llawer o'r dulliau hyn yn rhan o'n ffyrdd arferol o weithio er mwyn ehangu ein hymgysylltiad.

Rydym wedi cynnal ystod eang o weithgareddau a phrofiadau digidol, megis rhaglenni Ar eich Stepen Drws a Cysur mewn Casglu. Dyma ymgyrchoedd sy'n ddigidol o'r cychwyn ac yn helpu pobl i gysylltu â'n casgliadau o bell gan nad oedd modd iddynt ymweld â ni yn gorfforol. Denodd ein hymgyrchoedd Casglu Covid nifer uchel o gyfranwyr, sy'n dangos parodrwydd ac awydd pobl i rannu eu profiadau â ni ar adegau anodd. Mae ein hadran addysg hefyd wedi ymateb i'r her gan droi nifer o sesiynau ysgolion yn sesiynau ar-lein, a chynnig ystod eang o adnoddau i gynulleidfaoedd ifanc ar draws Cymru.

Cafodd egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'i saith ffordd o weithio eu hymgorffori yn natblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2018-21) ynghyd â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad ar 1 Chwefror 2022. Mae'r cynllun yn datblygu argymhellion dethol a wnaed yn yr Adroddiadau Ehangu Ymgysylltiad, a gomisiynwyd ar y cyd gan Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn ystod haf 2020 ac a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021. Awduron yr adroddiadau oedd:

- Re:cognition, a ganolbwyntiodd ar ardal led-wledig o dlodi
- Richie Turner Associates, a luniodd dîm i ganolbwyntio ar bobl fyddar ac anabl
- Welsh Arts Anti-Racist Union, a ganolbwyntiodd ar amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig.

Sylwer: nid yw'r camau gweithredu a restrir gyda'r amcanion yn gynhwysfawr. Am ragor o wybodaeth ar unrhyw agwedd o'n gwaith ar gydraddoldeb neu os hoffech gyfrannu at ddatblygu'r maes ymhellach o fewn Amgueddfa Cymru, cysylltwch â Kristina Enticott, Rheolwr AD (Kristina.Enticott@amgueddfacymru.ac.uk neu 02920 573379).

3. Adrodd yn erbyn ein Hamcanion

Amcan 1: Amrywiaeth yn y Gweithle – Ymgysylltu â Staff

Amcan a Chanlyniadau: Caiff pob aelod o staff a gwirfoddolwr y cyfle i gyrraedd ei wir botensial.

- **Cymru ffyniannus**
 - **Cymru sy'n fwy cyfartal**
1. Mae'r pandemig wedi effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd. O'r cychwyn cyntaf, roeddem yn deall yr angen i gefnogi anghenion ein staff a ac ystyried amrywiaeth ein staff a'u profiadau. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer eu lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Yn ystod 2021/22, rhoddwyd y mesurau canlynol ar waith:
 - Gweithio gartref gorfodol i staff cefn swyddfa, gyda'r rhan fwyaf o'r staff Blaen Tŷ ar ffyrlo am ran helaeth y cyfnod hwn. I gydnabod amgylchiadau heriol llawer o'n staff, cafodd system 'oriau craidd' staff cefn swyddfa ei atal.
 - Mewn partneriaeth â'n Hundebau Llafur cydnabyddedig, datblygwyd Gweithdrefnau Gweithio'n Ddiogel Covid-19 a'u rhoi ar waith ar draws ein safleoedd.
 - Roedd yn ofynnol i bob aelod o staff gwblhau rhaglen ailgynefino gynhwysfawr cyn dychwelyd i'r gwaith er mwyn eu helpu i bontio yn ôl i fyd gwaith ac i sicrhau gweithio diogel. Y staff fu'n gwarchod oedd yr olaf i ddychwelyd, a dim ond wedi cwblhau asesiad Risg Covid-19 unigol.

- Mae cefnogi lles staff wedi bod yn rhan greiddiol o'n hymateb i COVID-19. Drwy gydol y cyfnod, bu rheolwyr llinell mewn cysylltiad wythnosol â'u timau a darparwyd 'cardiau sgwrs' i hwyluso'r sgysiau ynghylch iechyd meddwl. Datblygwyd cyfres o ddigwyddiadau cymdeithasol rhithiol i geisio atal teimladau ynysig ymhlith ein staff ac roedd ein staff Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar gael i gefnogi'r rheini oedd yn ei chael yn anodd yn ystod y cyfnod eithriadol hwn.
2. Ymhlith yr hyfforddiant allweddol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn oedd: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Gyfraith i reolwyr llinell, Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl i reolwyr llinell, Ymwybyddiaeth o Fyddardod a sesiynau blasu BSL.
 3. Caiff y newid i gyfweiliadau dethol rhithiol yn ystod y cyfnod hwn ei gydnabod fel cyfle i helpu i amrywio'n gweithlu a chynyddu ein cronfa dalent. Mae dull hyblyg o gynnal cyfweiliadau dethol bellach yn rhan greiddiol o'n strategaeth recriwtio.
 4. Mae gan Amgueddfa Cymru statws Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr. Fel ymateb i'r pandemig, bu'n rhaid newid a datblygu ein rhaglen wirfoddoli er mwyn cefnogi lles ein gwirfoddolwyr fwy nag erioed, trwy gyswllt rheolaidd trwy Zoom, cylchlythyr, y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Parhawyd i gefnogi 498 o wirfoddolwyr, a roddodd 11,113 o oriau o'u hamser i Amgueddfa Cymru. Cafodd cyfleoedd gwirfoddoli digidol newydd eu treialu, a pharhawyd i gynnal ein gwirfoddolwyr garddio yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Amgueddfa Wlân Cymru, ac enillodd y ddwy ardd Wobr y Faner Werdd. Gweithiodd menter gardd gymunedol GRAFT yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe, Roots Foundation, CRISIS a phartneriaid cymunedol eraill i ddosbarthu citiau tyfu hadau a pharseli bwyd i'r rheini mewn angen yn ystod y cyfnod clo. Cafodd cynnyrch gardd GRAFT ei gynaeafu a'i roi i Matt's Cafe, Elusen Cymorth Iechyd Meddwl, Caer Las a Shared Plate, cwmni buddiannau cymunedol nid-er-elw sy'n coginio bwyd maethlon gan ddefnyddio cynnyrch cynaliadwy. Caiff yr holl elw ei roi yn ôl i broiectau cymunedol gan gynnwys rhai sy'n gweithio gyda ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl ifanc. Cyrhaeddodd y fenter hon restr fer Project Cynaliadwy'r Flwyddyn yng ngwobrau Treftadaeth Amgueddfa y DU. Mae rhagor o fanylion yn ein Hadroddiad Blyneddol ar Wirfoddoli 2021/22.

Amcan 2: Datblygiad yn y Gweithle – Cadw Ein Staff a Gwirfoddolwyr

Amcan a Chanlyniadau: Caiff pob aelod o staff a gwirfoddolwr y cyfle i gyrraedd ei wir botensial.

- **Cymru sy'n fwy llewyrchus**
 - **Cymru sy'n fwy cyfartal**
1. Mae **Uchelgais Diwylliannol** yn fenter a gydlynir gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol mewn partneriaeth â ni, Cadw, amgueddfeydd ac archifau lleol a Choleg Caerdydd a'r Fro sy'n darparu lleoliadau gwaith achrededig yn y sector treftadaeth. Er y bu'n rhaid gohirio gweithgarwch wyneb yn wyneb yn ystod y

flwyddyn, parhawyd â'r hyfforddi ar-lein, gyda 5 o'r 6 unigolyn yn ennill cymhwyster llawn ym mis Ionawr 2021, gan gynnwys hyfforddeion gafodd eu cefnogi gan Big Pit, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Sain Ffagan. Bydd y pedwerydd grŵp yn cychwyn yn ystod gwanwyn 2022, gan ddefnyddio dull cyfun o leoliadau corfforol a dosbarthiadau meistr ar-lein. Nod y fenter yw amrywio'r llwybrau tuag at weithio yn y sector diwylliannol.

2. **Buddsoddwyr mewn Pobl:** Yn dilyn cynnal Arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl 40 gyda staff, sefydlwyd Grŵp Llywio mewnol i staff er mwyn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer ein holl safleoedd, a sut i wella a datblygu anghenion ein staff. Dewiswyd aelodau'r grŵp ar hap a chan gynnwys ystod o rolau a graddau. Y Cyfarwyddwr Cyffredinol oedd cadeirydd y grŵp.

Cafodd aelodau gyfle i gymryd tro ar gadeirio cyfarfodydd y Grŵp Llywio, ac yn ogystal â gwella diwylliant y sefydliad, roedd y profiad hefyd yn gyfle ardderchog i staff ddatblygu eu sgiliau a dod i adnabod eu cydweithwyr o wahanol safleoedd yn well. Bu'r grŵp yn cyfarfod yn fisol i drafod cynnydd, datblygu mentrau allweddol a rhannu arfer gorau, cyn ennill Statws Datblygwyd Buddsoddwyr mewn Pobl ym mis Mai 2020.

Amcan 3: Gwella Hygyrchedd ar gyfer Pobl Anabl

Amcan a Chanlyniadau: Cynyddu'r amrywiaeth o bobl sy'n ymweld ag Amgueddfa Cymru ac yn defnyddio ein gwasanaethau drwy gael gwared ar rwystrau i fynediad.

- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru iachach
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru o gymunedau cydlynus

1. Buddsoddwyd yn sylweddol yn ein safleoedd yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys cychwyn y gwaith o adnewyddu prif lifftiau cyhoeddus Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a dechrau'r gwaith o osod llwybr hygyrch o flaen yr Amgueddfa (disgwyllir gorffen y gwaith ym mis Mehefin 2022). Bydd y projectau hyn yn welliant sylweddol i brofiad ein hymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a defnyddio Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Dyma ddarlun pensaer o'r llwybr.



Amcan 4: Gwella Mynediad at Wasanaethau ar gyfer pobl amrywiol eu diwylliant ac ethnigrwydd

Amcan a Chanlyniadau: Cynyddu amrywiaeth y bobl sy'n ymweld ag Amgueddfa Cymru ac yn defnyddio ein gwasanaethau.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
 - **Cymru o gymunedau cydlynus**
 - **Cymru sy'n fwy cyfartal**
 - **Cymru iachach**
1. **Ymateb gweithredol i fudiad Mae Bywydau Du o Bwys:** cyhoeddodd Amgueddfa Cymru ddatganiad yn cefnogi'r mudiad ar 3 Mehefin 2020. Sefydlwyd Grŵp Ymgynghori Mae Bywydau Du o Bwys. Mae partneriaid sy'n rhan o'r grŵp yn cynnwys Race Council Cymru, Race Alliance Wales, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd ac Ieuencid Cymru (EYST) a Phanel Cynghori Is-Sahara. Mae'r gwaith hyd yma wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r Siarter ar gyfer Dad-drefedigaethu'r Casgliadau; cynllun casglu ac arddangos deunydd protest Mae Bywydau Du o Bwys, a datblygu adnoddau addysg i ysgolion.
 2. Mae ein menter ymgysylltu ieuencid, Dwylo Ar Dreftadaeth, a noddwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn cefnogi ystod eang o bobl ifanc i gymryd rhan yn ein gwaith. Er enghraifft, mae Fforwm Ieuencid Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn cynnwys unigolion o gefndiroedd amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, pobl ar y sbectrwm awtistig, a phobl sydd dan anfantais economaidd. Galluogodd partneriaethau newydd gyda Phanel Cynghori Is-Sahara a Jukebox Collective i amrywio sylfaen y bobl ifanc yr ydym yn gweithio gyda nhw yn sylweddol. Yn ystod y cyfnod clo, lansiodd cynllun Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, er mwyn rhoi cyfleoedd â thâl i bobl ifanc o gefndiroedd amrywiol eu diwylliant ac ethnigrwydd a'r rheini sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf. Grŵp o bobl ifanc angerddol yw'r Cynhyrchwyr sy'n gweithio'n agos gyda staff yr Amgueddfa i newid ein ffordd o weithio, gan flaenoriaethu pynciau sy'n bwysig iddyn nhw, megis argyfwng yr hinsawdd, hunaniaeth rhywedd, cydraddoldeb a chynrychiolaeth.
 3. Ymhlith datblygiadau'r Rhaglen Gyhoeddus mae nifer o ddigwyddiadau yn dathlu amrywiaeth diwylliant ac ethnigrwydd gan gynnwys sgwrsiau, gwyliau a digwyddiadau partner fel Hwyrnos: Y Fagddu gyda Artes Mundi. Rydym wedi treialu'r defnydd o BSL gyda nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys y rhaglen Amgueddfa dros Nos: Gartref sydd wedi ennill gwobr.
 4. Caiff y cyfnodolyn ar-lein, *Cynfas*, sy'n rhan o raglen Celf ar y Cyd a ddatblygwyd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ei gynhyrchu gan Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru ar y cyd â Phanel Cynghori Is-Sahara. Caiff cynnwys ei gasglu trwy broses gyflwyno agored, a'i ddethol gan olygyddion gwadd o gefndiroedd amrywiol, gyda ffocws ar bynciau llosg. Aeth y pedwar rhifyn hyd at fis Ebrill 2021 i'r afael â themâu Mae Bywydau Du o Bwys; Celfyddydau mewn Iechyd; Celf, Bwyd a'r Amgylchedd; a Golwg Queer.

Amcan 5: Prynu Nwyddau a Gwasanaethau

Amcan a Chanlyniadau: Byddwn yn ceisio defnyddio dull sy'n gymdeithasol gyfrifol wrth brynu nwyddau, gwasanaethau ac adnoddau a sicrhau fod pob proses gaffael yn cyd-fynd ag ymrwymïadau'r Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

1. Mae Cynllun Gweithredu ein Strategaeth Gaffael yn ei le ac mae'n cynnwys mynd i'r afael â Chydraddoldeb a'r agenda cymdeithasol ehangach.
2. Mae pob proses gaffael sylweddol yn cael ei hysbysebu ac ar gael i bawb. Maent yn cynnwys cwestiynau a datganiadau am gydraddoldeb a'r agenda cymdeithasol ehangach fel mater o drefn.

Ymhlith y prosesau caffael diweddar mae'r canlynol:

- Pennu Ymgynghorwyr Hygyrchedd fydd yn rhoi map ffordd i ni wella hygyrchedd a chynwysoldeb ar gyfer ein holl ymwelwyr a staff.
- Llwybr mynediad newydd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Pennu contractiwr i adeiladu llwybr mynediad newydd tu blaen i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd er mwyn gwella hygyrchedd y safle.
- Caffael system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) fydd yn ein galluogi i gasglu gwybodaeth er mwyn i ni allu teilwra ein gwasanaethau i ymwelwyr a diwallu eu hanghenion. Mae'r wybodaeth yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i: manylion cyswllt mewn argyfwng, dewis iaith, alergeddau, cyfleoedd cyfartal, grwpiau oedran.
- Caffael ymgynghorwr i adolygu a datblygu'r wefan gan ystyried ein harlwy digidol a gwe cyfredol. Bydd rhan o'r gwaith yn canolbwyntio ar hygyrchedd.

Amcan 6: Comisiynu Gwaith a Rhaglennu

Amcan a Chanlyniadau: Rydym yn cydnabod ein rôl unigryw wrth ddarparu cyfleoedd i arddangos cyfoeth diwylliant amrywiol y genedl drwy'r celfyddydau.

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
 - Cymru gydnherth
 - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
 - Cymru sy'n fwy cyfartal
 - Cymru ffyniannus
1. Datblygwyd projectau Celf ar y Cyd mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau yn ystod y pandemig er mwyn profi syniadau ac amcanion newydd menter Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru, ac annog ymgysylltiad creadigol ac amrywiol â'r casgliad celf cenedlaethol sydd dan ofal Amgueddfa Cymru.

2. Cafodd hunaniaeth graffeg y project ei gomisiynu gan ddetholiad amrywiol o ddeg artist a enwebwyd gan ddeg cydweithfa o artistiaid ar draws Cymru. Mae platfform Instagram y project wedi archwilio themâu gan gynnwys hanesion cymunedau Du a LHDTQ+. Mae hyn wedi arwain at newid amlwg yn ein proffil cynulleidfaoedd ar-lein, sydd bellach yn ifancach, yn fwy amrywiol ac yn rhyngwladol.
3. Cyfnodolyn ar-lein, *Cynfas*, fel y nodir uchod.
4. **Agorwyd arddangosfa Windrush Cymru – Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes** yn Sain Ffagan ar 2 Hydref 2021. Mae'r arddangosfa hon yn adrodd straeon ac atgofion dros 40 o Genhedlaeth Windrush Cymru, yn eu geiriau eu hunain. Datblygwyd yr arddangosfa dan arweiniad Race Council Cymru mewn partneriaeth â ni, Canolfan y Mileniwm, Casgliad y Werin Cymru, Hynafiaid Windrush Cymru a Hanes Pobl Dduon Cymru 365. Gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Gŵyr Abertawe. Mae'r arddangosfa wedi cael ei harddangos yn sawl un o'n hamgueddfeydd gan gynnwys Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Wlân Cymru ac Amgueddfa Lechi Cymru. Mae hefyd ar daith i leoliadau eraill yng Nghymru. Mae'r hanesion llafar bellach yn rhan o'r casgliad cenedlaethol ac mae gweithdai ac adnoddau newydd i ysgolion wedi cael eu datblygu yn rhan o waddol y fenter hon.
5. **Casglu a thynnu sylw at hanesion pobl Ddu 2020-21:** Rydyn ni wedi parhau i weithio gydag unigolion a phartneriaid cymunedol i ddatblygu ac ehangu'r gynrychiolaeth o hanesion pobl Ddu yn y casgliad. Ymhlith y cynnyrch mae:
 - Casglu placardiau, ffotograffau digidol a hanesion llafar gan brotestwyr Mae Bywydau Du o Bwys ym Mangor, Caerdydd a Wrecsam. Cafodd y deunydd ei dderbynodi, catalogio a digideiddio wrth gyrraedd sy'n golygu fod y gwrthrychau yn hygyrch ac yn barod at ddefnydd ar unwaith trwy Casgliadau Ar-lein.
 - Hwyluso dangosiad ar-lein o *Just a Little Piece of Jamaica inna Port Talbot* - ffilm sy'n seiliedig ar hanes llafar ac sy'n dathlu hynafiaid Jamaicaidd Port Talbot a ymgartrefodd yng Nghymru yn y 1950au-60au. Yn dilyn y dangosiad cafwyd sesiwn holi ac ateb byw gyda'r cynhyrchydd a chyfranwyr. (Mehefin 2020).
 - Gweithio mewn partneriaeth â Senedd Cymru a Race Council Cymru ar arddangosfa ar-lein yn seiliedig ar straeon bywydau hynafiaid Windrush yng Nghymru. (Hydref 2020).
6. **Casglu a thynnu sylw at hanesion LHDTQ+ 2020-21:** Mae casglu hanes LHDTQ+ yn Amgueddfa Cymru gyda'r nod o ddatblygu'r casgliad hwn i fod yn gwbl gynrychioladol o gymuned LHDTQ+ Cymru wedi bod yn ffocws yn ystod y cyfnod hwn. Ymhlith y cynnyrch mae:
 - Casglu deunydd a diwylliant digidol amryw ddigwyddiadau Pride ar draws Cymru, gan gynnwys digwyddiadau digidol a gynhaliwyd yn ystod pandemig

Covid-19. Casglwyd digwyddiad Pride Rhithwir Cymru Gyfan a gynhaliwyd ar 24 a 25 Awst 2020 ac a drefnwyd gan LHDTC Cymru yn ei gyfanrwydd ar gyfer archif clyweledol Sain Ffagan.

- Yn ystod Mis Hanes LHDT+ ym mis Chwefror 2021, cydweithiwyd â Senedd Cymru i rannu casgliadau LHDTC+ ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Senedd.
- Rydyn ni'n parhau i hyrwyddo'r casgliad trwy gyfrannu at ddigwyddiadau ar-lein a rhwydweithiau proffesiynol hanes LHDTQ+.
- Mae cynrychiolaeth y casgliad wedi gwella'n sylweddol, ac mae'r holl wrthrychau ar gael ar Casgliadau Ar-lein.

Amcan 7: Arweiniad a Chydymffurfiaeth Corfforaethol

Amcan a Chanlyniadau: Sicrhau trefniadau arwain a llywodraethu strategol, gan sicrhau fod safonau yn uchel ac yn gyson ar draws ein holl feysydd cyfrifoldeb.

1. Ein nod yw sicrhau fod ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn fwy amrywiol. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y nod hwn.
2. Cydweithiwyd â grŵp amrywiaeth mewnol i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2021-2022).
3. Parhawyd i gydweithio â Chyrff Cyhoeddus Cymreig eraill yn ystod y cyfnod hwn. Mae Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen i ddatblygu cyfleoedd cyfartal ar draws ein sefydliadau a gwireddu eu Hamcanion Cydraddoldeb Strategol cyfun ar gyfer 2020-2024.

4. Cyflog Cyfartal

Amcan a Chanlyniadau: Lleihau'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod.

1. Dyma fanylion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Amgueddfa Cymru. Cyfrifwyd y ffigurau isod gan ddefnyddio'r methodolegau safonol a ddefnyddir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) 2017.

2. Crynodeb o'r Data a'r Gyfradd Newid

	% 2018/19	% 2019/20	% newid
Canolrif bwlch cyflog rhwng y rhywiau	9.34%	2.69%	-6.65%

Cymedr bwlch cyflog rhwng y rhywiau	6.47%	4.09%	-2.31%	
Cyfran o ddynion a menywod ym mhob chwarterl:				
	2018/19	2019/20		
Chwarterl	Menywod %	Dynion %	Menywod %	Dynion %
Y chwarterl cyntaf (isaf)	62.30%	37.70%	58.67%	41.33%
Ail chwarterl	55.19%	44.81%	57.65%	42.35%
Trydydd chwarterl	50.27%	49.73%	44.39%	55.61%
Pedwerydd chwarterl (uchaf)	51.67%	48.33%	51.28%	48.72%

3. Camau i Waredu'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn cymryd nifer o gamau i barhau i'w leihau. Yn ystod 2019/2020 gwnaed cynnydd sylweddol yn y meysydd canlynol:

- Denwyd mwy o geisiadau gan fenywod ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli gan arwain at benodi mwy o fenywod ar lefelau gweithredol uwch.
- Cynhaliwyd adolygiad mewnol o'n harferion recriwtio a phenodi presennol er mwyn canfod meysydd i wella er mwyn denu amrywiaeth eang o ymgeiswyr a chwalu rhwystrau.
- Datblygwyd 'Canllaw Menopô's' ar gyfer pob aelod staff hefyd er mwyn cefnogi eu cydweithwyr. Codwyd ymwybyddiaeth ymhlith cydweithwyr a rheolwyr drwy hyrwyddo'r canllaw, a thrwy staff Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yr Amgueddfa, er mwyn helpu staff i gefnogi menywod yn y gweithle.
- Rydym wedi cyhoeddi ein hamcanion Cydraddoldeb Strategol sy'n amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chynyddu amrywiaeth ein gweithlu.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y cynnydd hwn drwy ganolbwyntio ar y canlynol:

- Arferion recriwtio i sicrhau amrywiaeth yn ein sylfaen ymgeiswyr.
- Monitro cyfraddau gadael er mwyn adnabod problemau a thueddiadau posibl.
- Cefnogi arferion gweithio hyblyg a monitro effaith posibl ar gynnydd.
- Darparu hyfforddiant ar gydraddoldeb a rhagfarn ddarwybod.

- Diweddarau ein polisiâu AD yn ymwneud â theuluoedd er mwyn sicrhau eu bod mor hygyrch, cynhwysol a deniadol â phosibl.
- Parhau i ddarparu hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chyfraith Gyflogaeth i bob rheolwr.
- Cyflwyno system Gwerthuso Swydd er mwyn ein galluogi i gynnal arolwg cyflog cyfartal.
- Gweithio'n agos ag aelodau eraill Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru i gynyddu amrywiaeth yn y gweithlu a gwaredu bylchau cyflog, yn unol â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol Cyfun 2020-2024.

Mae dadansoddiad cynhwysfawr o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a manylion ein cynllun gweithredu er mwyn cau'r bwlch yn ein Hadroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, yma: https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/?_ga=2.158840377.2074479887.1648455482-1792604206.1628710107.